**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU: TROSEDD AC ANRHEFN, 23 IONAWR 2025**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd)

Elwyn Edwards, Elin Hywel, Arwyn Herald Roberts, Beca Brown, Linda Morgan, Beca Roberts, Berwyn Parry Jones, Edgar Wyn Owen, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas, Gruffydd Williams, Elfed Powell Roberts, Rob Triggs, Elfed Williams a Stephen Churchman.

**Swyddogion yn bresennol:**
Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mannon Trappe (Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl), Daron Marged Owens (Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) a Stephen Pawson (Prif Arolygydd, Heddlu Gogledd Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:**
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor) a Sandra Lynne Thomas (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn).

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 07 Tachwedd 2024, fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl, Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru.

Atgoffwyd bod cyflwyno diweddariad blynyddol ar weithrediad y Bartneriaeth Diogelwch yn ofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006.

Eglurwyd bod Partneriaethau Diogelu Cymunedol wedi cael eu ffurfio yn 1988 er mwyn sicrhau bod trosedd ac anrhefn yn cael ei gysidro i fod yn broblem i bawb o fewn y gymdeithas, nid i'r heddlu yn unig. Ychwanegwyd bod gan y Bartneriaeth gyfrifoldeb i lunio a gweithredu strategaeth i atal a lleihau trais difrifol a bod hynny yn cael ei wneud yn rhanbarthol ar draws gogledd Cymru.

Pwysleisiwyd nad oes unrhyw arian yn cael ei ddyrannu yn barhaol ar gyfer diogelwch cymunedol ac mae'r Bartneriaeth yn ddibynnol ar gyfleoedd ariannu ad-hoc yn dilyn cyflwyno ceisiadau manwl. Nodwyd mai'r unig wasanaeth sydd yn cael ei gomisiynu yn uniongyrchol gan y Bartneriaeth yw'r Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR). Eglurwyd bod yr Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn ddyletswydd statudol yn sgil Deddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2024. Cadarnhawyd bod dau adolygiad wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref a'i gymeradwyo. Diweddarwyd bod y Bartneriaeth wedi gwneud cais i'r Gronfa Atal Hunan-niwed a Hunanladdiad er mwyn cyflwyno prosiect ar y cyd gydag Uned Diogelwch Cam-drin Domestig, Heddlu Gogledd Cymru, a'r llinell gymorth 'Byw Heb Ofn' i ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr o gam drin domestig. Mynegwyd balchder bod y cais hwn wedi cael ei gymeradwyo a bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu yn ystod 2025.

Tynnwyd sylw at nifer o faterion sydd yn flaenoriaeth i'r bartneriaeth yn ystod 2024-25, yn seiliedig ar flaenoriaethau rhanbarthol Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Eglurwyd bod y rhain yn cynnwys:

- Atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r afael â throseddau treisgar
- Mynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd.

Rhannwyd data ar nifer o wahanol fathau o droseddau gan gymharu ystadegau data 2023/24 gan edrych i weld os oedd cyfraddau ystadegau Gwynedd yn debyg i'r hyn a welir ar draws gogledd Cymru. Cydnabuwyd bod cynnydd sylweddol i weld yn nhroseddau ystelcian ac aflonyddu (+11.5%) a throseddau rhyw (+27.9%) o'i gymharu â chyfraddau 2023/24. Ystyriwyd bod y cynnydd hwn yn deillio o'r ffaith bod mwy o achosion yn cael eu hadrodd gan fod dioddefwyr yn fwy hyderus i wneud hynny yn dilyn ymgyrchoedd diweddar. Ychwanegwyd bod cynnydd i'w weld yn nifer o droseddau sydd yn cael eu hadrodd wedi i fwy na 12 mis fynd heibio ers y drosedd. Cyfeiriwyd hefyd at gyfraddau troseddau casineb gan nodi bod y rhain 16.3% yn uwch yng Ngwynedd o'i gymharu â 2023/24. Pwysleisiwyd bod cynnydd o 10.9% o'r math yma o droseddau i'w gweld yn rhanbarthol. Fodd bynnag, sicrhawyd nad yw cyfraddau'r holl fathau o droseddau ar gynnydd, megis digwyddiadau domestig (-1.3% o'i gymharu â 2023/24) a chyfraddau o unigolion sydd yn troseddu o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau (-28.5% yn rhanbarthol o gymharu â 2023/24).

Adroddwyd bod Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru wedi cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024. Eglurwyd bod y Strategaeth hon yn gosod Dyletswydd Trais Difrifol ar awdurdodau penodedig i gydweithio er mwyn atal a lleihau troseddau difrifol yn eu cymunedau. Pwysleisiwyd bod y Bartneriaeth wedi chwarae rôl ganolog wrth ddatblygu'r Strategaeth hon. Bu i'r Bartneriaeth dderbyn £82,000 am y gwaith hwn sydd wedi cael ei ddynodi i ariannu wyth prosiect newydd.

Mynegwyd balchder bod y Bartneriaeth wedi derbyn £450,000 drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn gosod ac uwchraddio teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn ardaloedd yng Nghaernarfon, Bangor a Phwllheli. Diolchwyd am y cydweithio clos gydag Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC sydd wedi bod yn cynorthwyo i osod y camerâu. Ychwanegwyd bod y Bartneriaeth yn bwriadu cyflwyno ceisiadau am arian ychwanegol gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn gallu gosod mwy o gamerâu cylch cyfyng mewn ardaloedd eraill o Wynedd.

Diweddarwyd bod Gorchmynion Diogelwch Mannau Cyhoeddus wedi cael eu cyflwyno mewn ardaloedd yng Nghaernarfon, Cricieth a Phwllheli ym mis Awst 2024 yn dilyn cymeradwyaeth y CabinetAwst. Nodwyd bod y rhain wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel o fewn eu cymunedau ac yn rhoi pŵer ychwanegol i'r heddlu wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mynegwyd pryder bod y data a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad yn dangos bod troseddau rhyw wedi cynyddu llawer mwy yng Ngwynedd (+27.9%) nag yn rhanbarthol (+14.6%) o'i gymharu â data 2023/24. Diolchwyd i'r Bartneriaeth am y gwaith sydd yn cael ei wneud i gefnogi dioddefwyr o droseddau rhyw. Fodd bynnag, ystyriwyd y dylai'r Bartneriaeth sicrhau bod gwaith ataliol yn y maes hwn yn flaenoriaeth i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod y cyfraddau yn gostwng. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl bod gwaith ataliol yn cael ei weithredu megis rhaglenni sydd yn cael eu cynnal mewn ysgolion er mwyn dysgu am ymddygiadau derbyniol a pherthnasau iach.

Llongyfarchwyd y Bartneriaeth ar eu llwyddiant i adnewyddu systemau CCTV yn ardaloedd Caernarfon, Bangor a Phwllheli. Ystyriwyd os oes gwaith yn cael ei wneud er mwyn asesu cyfraddau troseddu cyn i'r camerâu newydd gael eu gosod a'u cymharu er mwyn gweld os yw'r prosiect hwn wedi arwain at lai o droseddau. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod hyn yn elfen bwysig o'r prosiect a buasai data cadarnhaol yn wybodaeth gefnogol i geisiadau ychwanegol o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Cadarnhawyd bod cwmni 'Wavehill' wedi cael eu comisiynu i ganfod y data perthnasol gan gadarnhau bydd y wybodaeth yn cael ei gynnwys yn niweddariad blynyddol 2025/26 y Bartneriaeth, gyda modd rhannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor hwn cyn hynny os dymunir.

Cyfeiriwyd at Strategaeth Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru 2021-24 sydd yn ymwneud a thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig, cam-drin rhywiol a chaethwasiaeth fodern, gan ofyn pa waith sydd yn digwydd er mwyn cefnogi cymunedau i adnabod arwyddion bod unigolion yn dioddef o gaethwasiaeth fodern. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl nad oedd hyn yn waith a oedd yn cael ei weithredu yn uniongyrchol gan y Bartneriaeth ond bod Bwrdd Bregusrwydd yn edrych i mewn i'r materion hyn gan addysgu trigolion ar ymwybyddiaeth caethwasiaeth fodern a sut gallent adnabod arwyddion bod unrhyw un yn dioddef ohono.

Amlygwyd bod troseddau casineb yn broblem gynyddol yng Ngwynedd ac yn rhanbarthol, gyda'r ystadegau yn cynyddu yn flynyddol. Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae delio gyda'r her hon, cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod y Bartneriaeth yn ymwybodol o'r her. Nodwyd ei fod yn anodd delio ag o mewn un dull penodol gan fod nifer o agweddau gwahanol i'r troseddau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Bartneriaeth yn cydweithio er mwyn datblygu cynlluniau grymus i ymateb i'r her gyda'r bwriad i leihau niferoedd y math hwn o droseddau i'r dyfodol.

Ystyriwyd y byddai cyfraddau troseddau domestig, rhywiol ag ystelcian yn gallu gostwng os byddai mwy o adnoddau yn cael ei glustnodi i ddelio â nhw, megis sicrhau bod mwy o heddweision ar batrôl yn ein cymunedau. Mewn ymateb i'r sylwadau, cytunodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn y byddai hyn yn gallu bod yn ddull effeithiol o ostwng y cyfraddau o droseddau. Fodd bynnag, cadarnhawyd mai Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am y grantiau amrywiol sydd yn ariannu'r Bartneriaeth ac mae cyfyngiadau ar sut gall yr arian hynny gael ei wario. Pwysleisiwyd bod gwaith lobïo yn mynd ymlaen er mwyn gweld cynnydd yn y grantiau sydd ar gael i'r Bartneriaeth eleni a bod swyddogion yn ymholi am ragolygon o'r grantiau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

Nodwyd bod ystadegau troseddau byrgleriaeth tai a busnesau yn gymharol debyg i'r ystadegau a welwyd yn 2023/24. Gofynnwyd a oes modd derbyn data i amlinellu faint o'r troseddau hyn sydd yn digwydd mewn mannau gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol. Ystyriwyd hefyd os oes ystyriaeth yn cael ei roi ar gyfer dyfais CCTV symudol a ellir ei ddefnyddio mewn gwahanol ardaloedd yn ôl yr angen. Mewn ymateb i'r sylwadau, eglurodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn oherwydd cymhlethdod y dasg ac mai dim ond un dadansoddwr a oedd yn gwneud y gwaith ar draws y Gogledd nad oedd modd derbyn y data hwn ar gyfer y Sir gyfan ond bod modd darparu data os gwneir cais am wybodaeth am ardal benodol. Ymhelaethodd y Prif Arolygydd bod yr Heddlu a'r Bartneriaeth yn croesawu'r syniad o ddyfais CCTV symudol ond bod ystyriaethau ariannol yn rhwystr i'w prynu.

Gofynnwyd a yw'r lleoliadau ble mae troseddau yn cymryd lle yn cael eu hasesu (megis ansawdd y golau stryd, os yw'n llecyn cysgodol neu guddiedig) yn cael ei ystyried yn dilyn troseddau, er mwyn ystyried gwelliannau i atal troseddau yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r cwestiwn, cadarnhaodd y Prif Arolygydd bod hwn yn rhan bwysig iawn o ymchwiliadau'r heddlu a'i fod yn arwain at addasiadau i'r ffordd mae'r mannau hynny yn cael eu diogelu.

Ystyriwyd os yw'r cynnydd yn ffigyrau troseddau rhywiol yn deillio o unrhyw newidiadau i'r broses o adrodd ar droseddau. Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl bod dioddefwyr yn teimlo mwy hyderus i adrodd ar droseddau yn dilyn ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth am y broses o wneud hynny. Ychwanegwyd bod hyn wedi arwain at ddioddefwyr yn adrodd ar droseddau hanesyddol sydd wedi cael eu cynnwys yn y ffigyrau o fewn yr adroddiad.

Soniwyd bod yr ystadegau a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r troseddau sydd wedi cael eu hadrodd. Trafodwyd bod nifer o droseddau heb gael eu cynnwys yn yr adroddiad gan nad oes neb wedi adrodd arnynt, gan ystyried pa waith sydd yn cael ei wneud gan y Bartneriaeth er mwyn ceisio sicrhau bod cymaint o droseddau a phosib yn cael eu canfod a phrosesu'r data hynny'n flynyddol. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl bod casglu'r data hwn yn gallu bod yn heriol ond bod y Bartneriaeth yn cydweithio gyda gwasanaethau cefnogol megis Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru, Gorwel ac Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU) er

mwyn gallu ystyried sut fath o heriau sydd yn effeithio hwy. Ychwanegodd y Prif Arolygydd nad yw troseddwyr yn cael eu dal wrth weithredu eu trosedd cyntaf yn aml a bod gwaith yn cael ei wneud i geisio dal troseddwyr yn gynt ac annog dioddefwyr i adrodd ar droseddau yn gynharach.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**
3. **Argymell bod y Bartneriaeth yn ychwanegu gwaith ataliol mewn cyswllt â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth benodol ar gyfer y dyfodol.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, Y Prif Weithredwr a Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd.

Atgoffwyd bod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi cael ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 8 Mawrth 2022 gyda'r uchelgais y 'Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030'. Ychwanegwyd bod y mater o ymateb i argyfwng newid hinsawdd yn un o flaenoriaethau 'Gwella'r Cyngor' o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

Eglurwyd bod allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 16% o'i gymharu â'r waelodlin a sefydlwyd yn 2019/20, gan gynnwys caffael. Cydnabuwyd bod allyriadau carbon o brosesau caffael yn cyflwyno her i gyflawni'r uchelgais hwn gan ei fod yn seiliedig ar wariant yn unig a ddim yn cymryd i ystyriaeth lleoliadau mae'r Cyngor yn prynu nwyddau. Nodwyd bod hyn yn creu darlun camarweiniol o wir effaith gwariant ar yr hinsawdd.

Nodwyd bod £3miliwn wedi cael ei glustnodi ar gyfer creu cronfa Cynllun Hinsawdd drwy'r broses bidiau refeniw un-tro. Darparwyd diweddariad bod £792,015 yn weddill yn y gronfa hon ar ddiwedd Rhagfyr 2024 gan fod £2,207,984 wedi cael ei wario neu ei glustnodi ar gyfer gwariant. Eglurwyd bod y gwariant hwn yn cynnwys £500,000 ar bwyntiau gwefru ceir trydan a £2.1miliwn ar gynllun gwres carbon isel.

Esboniwyd bod materion sydd yn berthnasol i'r Cynllun yn datblygu'n gyflym a'i fod yn amserol i ystyried adolygu'r Cynllun. Anogwyd yr Aelodau i rannu unrhyw syniadau a datblygiadau priodol er mwyn eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cyfeiriwyd at y bwriad i adolygu'r Cynllun. Cynigiwyd ac eiliwyd bod casgliadau o adolygiad y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn pan yn amserol er mwyn i'r Pwyllgor gallu rhoi mewnbwn iddo cyn cyflwyno'r adolygiad i'r Cabinet.

Gofynnwyd a yw'r Bwrdd yn gwireddu anghenion amcanion y Cynllun yn effeithiol, neu a oes angen ystyried opsiynau eraill er mwyn sicrhau bod yr uchelgais yn cael ei gyfarch. Nododd y Prif Weithredwr bod yr adolygiad ar y Cynllun hwn yn mynd i asesu os yw'r prosiectau sydd mewn lle yn ddigonol i gyrraedd yr uchelgais, neu oes angen datblygu cynlluniau newydd. Ychwanegwyd bydd agweddau eraill o'r Cynllun yn cael ei asesu er mwyn ystyried ei fod yn addas i bwrpas, arbed arian ac yn gwarchod gwasanaethau. Hefyd, cadarnhawyd bydd ystyriaeth yn cael ei roi er mwyn gweld os mai'r Bwrdd yw'r cerbyd gorau i yrru'r Cynllun yn ei flaen neu oes angen ail-ystyried y strwythur.

Nodwyd bod buddsoddi mewn cynlluniau i leihau allyriadau carbon wedi arbed llawer o arian i'r Cyngor. Anogwyd y Cyngor i barhau i fuddsoddi yn y cynlluniau hyn i'r dyfodol.

Holwyd sut all y Pwyllgor hwn neu Aelodau Etholedig fod o gymorth i lobio'r Llywodraeth yng nghyswllt heriau'r prosesau Caffael er mwyn galw am newid i sut mae caffael yn cael ei gofnodi wrth geisio lleihau allyriadau carbon. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn lleihau allyriadau carbon yn y maes caffael er bod heriau'n codi o fewn y prosesau. Manylwyd bod swyddogion yn cydweithio gyda Busnes Cymru er mwyn cynnal seminarau penodol o fewn y maes gofal er mwyn gweld sut allent leihau eu hallyriadau carbon. Ymhelaethwyd bod cefnogaeth ar gael i ddarparwyr allanol er mwyn eu hannog i ddad-garboneiddio, yn y gobaith y byddent yn gweld y budd ohono. Mynegwyd balchder bod y mwyafrif o'r darparwyr sydd yn cydweithio gyda'r Cyngor o fewn y maes gofal yn gweld gwerth o'r cynlluniau hyn ond bod heriau ariannol yn atal rhai cwmnïau rhag gwireddu addasiadau.

Cyfeiriwyd at y siart ar dudalen 8 yr adroddiad blynyddol a oedd yn dangos bod 'Adeiladau' yn gyfrifol am 45% o allyriadau carbon (heb gynnwys caffael) yn ystod 2023/24. Nodwyd byddai'n ddefnyddiol i gael data manylach er mwyn gallu canfod pa heriau sydd yn cyfrannu at yr allyriadau carbon. Credwyd byddai manylu ar y data hwn yn arwain at ddatrysiadau i'r heriau presennol.

Nodwyd bod yr Adroddiad yn cadarnhau bod adeiladu ffermydd paneli solar wedi cael ei dynnu o'r Cynllun oherwydd materion ariannol. Soniwyd byddai hyn wedi cael effaith fawr ar dirwedd yr ardal, ond ystyriwyd os yw'r Cyngor wedi ystyried rhoi paneli solar ar diroedd eraill megis ar adeiladau neu feysydd parcio. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad yw pob ardal yn addas ar gyfer paneli solar ond bod gwaith estynedig yn cael ei wneud ar feysydd parcio er mwyn gosod paneli solar ar fannau priodol.

Tynnwyd sylw bod yr Adroddiad yn nodi cynnydd o 11% mewn allyriadau carbon o oleuadau stryd ers 2022/23. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y ffigwr hwn wedi cynyddu eleni oherwydd bod y Cyngor wedi etifeddu mwy o oleuadau stryd yn dilyn datblygiadau megis ffordd osgoi Caernarfon. Cadarnhawyd y disgwylir i'r ffigwr hwn ostwng erbyn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Cyfeiriwyd at gynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus integredig fel rhan o flaenoriaeth 'Symud a Thrafnidiaeth' y Cynllun, gan nodi bod amserlenni bws yn creu problemau mewn rhai cymunedau. Manylwyd bod angen magu hyder trigolion i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, drwy gadarnhau bod amserlenni bysiau yn caniatáu iddynt fynd a dod o'r gweithle, gymdeithasu a chrwydro gyda sicrwydd er mwyn cynyddu defnydd o'r gwasanaethau. Ystyriwyd hefyd byddai hyn yn annog trigolion i beidio prynu ceir personol gan fod cludiant cyhoeddus yn cyfarch eu hanghenion.

Nodwyd sylwadau a oedd yn cwestiynu'r angen i geisio lleihau allyriadau carbon. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi penderfynu ymdrechu i wireddu'r Cynllun yn unol ag argymhellion arbenigwyr.

Gofynnwyd faint o'r arian sydd yn cael ei arbed drwy weithredu prosiectau'r Cynllun sydd yn cael ei fuddsoddi yn ôl i'r Cynllun ar gyfer ariannu prosiectau'r dyfodol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad yw'r arian a arbedwyd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y cynllun ar hyn o bryd oherwydd y pwysau ariannol presennol ar y Cyngor. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod yr arbediad ariannol yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod gwasanaethau eraill sydd yn cael ei gynnig gan y Cyngor yn cael eu gwarchod wrth geisio ymdopi â'r sefyllfa.

Ymholwyd pa ddatblygiadau sydd ar y gweill mewn cysylltiad â chynllun 'Fflyd Werdd' y Cyngor. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod ystyriaeth yn cael ei roi er mwyn gweld os oes modd lleihau fflyd y Cyngor drwy ystyried pa swyddi sydd angen defnydd ohonynt a sut effaith byddai lleihau'r fflyd yn cael ar wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Nodwyd hefyd bod ymgais yn cael ei wneud i brynu cerbydau trydan wrth adnewyddu cerbydau ond cydnabuwyd nad oes modd gwneud hyn ar gyfer pob cerbyd, megis lorïau casglu gwastraff, ar hyn o bryd. Sicrhawyd bydd holl gerbydau trydan y Cyngor yn cael eu gwefru yn y canolfannau ble cedwir y cerbydau a ni fydd disgwyliad i unrhyw aelod o staff wneud hynny ar aelwyd bersonol.

Rhannwyd nifer o syniadau a ellir eu datblygu fel rhan o'r Cynllun i'r dyfodol megis gadael i fenter gymdeithasol Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), rentu meysydd parcio gan y Cyngor ar gyfer gosod paneli solar gyda'r cytundeb y byddent yn gwerthu'r trydan i'r Cyngor am bris gostyngedig. Cyfeiriwyd hefyd at fentrau ynni cymunedol gan nodi byddai cydweithio gyda rhain yn gallu bod o fudd i'r Cynllun. Mewn ymateb i'r syniadau hyn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr byddent yn cael eu hystyried gan groesawu gwahodd mentrau ynni cymunedol a sefydliadau eraill i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd i rannu gwybodaeth a chyflwyniadau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Argymell y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am yr hyn sy'n gyfrifol am y canrannau allyriadau carbon.**
3. **Bod y pwyllgor yn craffu casgliadau adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur cyn i'r Cabinet ei ystyried.**
4. **Gofyn i Arweinydd y Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt adolygu'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o brosesau caffael.**

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Atgoffwyd bod Cyngor Gwynedd yn un o 5 aelod statudol y Bwrdd, gan nodi bod cyfanswm o 15 sefydliad yn aelodau ohono. Manylwyd bod y rhain yn cynnwys Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion y Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru, Mantell Gwynedd, Coleg Llandrillo Menai, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn.

Nodwyd y cyhoeddwyd Cynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn ym mis Mai 2023. Ymhelaethwyd bod y Cynllun hwn yn nodi tri amcan ble fydd Aelodau'r Bwrdd yn cydweithio i'w cyflawni, sef:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant cymunedau.
- Gwella lles a llwyddiant plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
- Cefnogi gwasanaethau a chymunedau i symud tuag at sero net carbon.

Cyhoeddwyd bod trefniadau cyflawni'r Bwrdd wedi cael eu haddasu yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Ymhelaethwyd mai'r unig Is-grŵp sydd yn atebol i'r Bwrdd yw'r Is-grŵp Cymraeg.

Eglurwyd fod yr Is-grŵp parhaol hwn wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd yr Iaith a phrosiect ARFOR er mwyn datrys heriau cynllunio gweithlu dwyieithog, gan ddatblygu rhestr wirio ymarfer da i gyflogwyr eu dilyn. Ychwanegwyd bod yr Is-grŵp wedi cyflwyno syniadau ar gyfer prosiect i 'chwalu mythau' yn y dyfodol agos er mwyn parhau i fynd i'r afael â heriau cynllunio'r gweithlu.

Cadarnhawyd bod y Bwrdd wedi ymrwymo i gynllun Pwysau Iach. Manylwyd bod y Bwrdd yn cydweithio ar lefel ranbarthol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn ychwanegu gwerth a bod gweithdrefnau mewn lle er mwyn asesu effaith y cynllun i'r dyfodol.

Mynegwyd balchder bod y Bwrdd yn arwain ar Siarter Teithio Llesol, gan nodi bod digwyddiad wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Mawrth ble fydd Aelodau'r Bwrdd yn ymrwymo yn swyddogol i'r Cynllun ym mhresenoldeb Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Ychwanegwyd bod Grŵp Tasg a Gorffen gweithredol mewn lle ar gyfer gweithredu'r Siarter hon, gan sicrhau bod arferion da ac adnoddau yn cael eu rhannu gyda'r holl Aelodau.

Adroddwyd bod cynllun cyflawni wedi cael ei ddatblygu gan y Bwrdd, gan nodi bod adroddiadau ar gynnydd Amcanion y Bwrdd yn cael eu derbyn yn rheolaidd. Eglurwyd bod y wybodaeth hon yn galluogi'r Bwrdd i adnabod os oes unrhyw amserlen i gwblhau unrhyw Amcan yn llithro, a'r rhesymau dros hynny.

Tynnwyd sylw at waith ymgysylltu mae'r Bwrdd yn ei wneud gyda chymunedau. Eglurwyd bod hyn yn cynnwys ymweliadau i bedair ysgol uwchradd yng Ngwynedd er mwyn trafod oblygiadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Cynllun Llesiant. Ychwanegwyd bod gwaith wedi cael ei wneud yn Hafod y Gest, Porthmadog er mwyn canfod faint o 'oed-gyfeillgar' yw'r ardal, ar gais yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd. Cadarnhawyd y bwriedir cynnal mwy o weithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol wrth baratoi at ddatblygu asesiadau llesiant newydd yn 2025/26.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd i'r Bwrdd am weithredu ar sylwadau'r Pwyllgor hwn yn dilyn yr Adroddiad Cynnydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn 2024/25 drwy sicrhau bod trefniadau monitro cynnydd prosiectau wedi cael eu cynnwys yn yr Adroddiad. Gofynnwyd a oes modd i Adroddiadau'r dyfodol gynnwys gwybodaeth sy'n dangos os yw'r cynlluniau yn cyflawni ai peidio er mwyn sicrhau bod y broses Craffu mor effeithiol â phosib. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod bodd i'r Pwyllgor derbyn y data yma gan ei fod yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd fel rhan o drefniant newydd. Sicrhawyd bydd y wybodaeth hon yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd i'r dyfodol.

Gofynnwyd pam nad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael eu nodi fel Aelodau o'r Is-grŵp Iaith Gymraeg na'r Is-grŵp Pwysau Iach. Holwyd beth oedd y trefniadau o ran penderfynu ar yr aelodaeth a sut gellir annog y Bwrdd Iechyd i gymryd rhan yn y gwaith yn y meysydd allweddol yma gan fod ganddynt fewnbwn pwysig er mwyn cyflawni. Mewn ymateb, cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn mai materion staffio sydd wedi arwain at hyn eleni ond maent wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r Is-grŵp Iaith Gymraeg. Eglurwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain ar waith yr Is-grŵp Pwysau Iach a bod gwaith y Bwrdd ar bwysau iach yn bwydo i mewn i waith y Grŵp Strategol Rhanbarthol a oedd yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd. Cadarnhawyd byddai Adroddiadau'r dyfodol yn manylu os oes unrhyw sedd wag ar yr Is- grwpiau gan unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd er eglurder. Yn yr un modd, nodwyd bod gan y Cymdeithasau Tai sedd wag ar y Bwrdd ar hyn o bryd a'u bod yn ymdrechu i ganfod y person cywir i fynychu cyfarfodydd.

Tynnwyd sylw bod y sesiwn hyfforddiant Trawma Ymwybodol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd, er mwyn gallu gwireddu amcan 'Gwella lles a llwyddiant plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial' wedi llithro. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod llithriad wedi bod yn yr amserlen i ddarparu'r hyfforddiant hwn i Aelodau'r Bwrdd a bod yr oediad yma wedi codi oherwydd anhawster i sicrhau dyddiad cyfleus ar gyfer pob Aelod. Pwysleisiwyd y gobeithir bydd y sesiwn hyfforddiant hwn wedi cael ei gynnal cyn diwedd yr haf a diolchwyd i Gyngor Sir Ynys Môn am eu haddewid i ddarparu'r hyfforddiant am ddim i Aelodau'r Bwrdd. Mynegwyd mai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hwn fyddai'r Bwrdd cyntaf i fod yn Drawma Ymwybodol pan fydd yr hyfforddiant hwn wedi cael ei gyflawni a bydd yr Aelodau yn cwblhau'r gwaith gyda gwell ymwybyddiaeth o'r maes.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Gofyn bod adroddiadau i'r dyfodol yn cynnwys gwybodaeth/data ar gynnydd o ran cyflawni**

## 9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Atgoffwyd bod Blaenraglen ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 07 Tachwedd 2024.

Eglurwyd bod yr eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion' wedi llithro o'r cyfarfod hwn ac i'w raglennu yn ystod 2025/26. Nodwyd y byddai'n fwy amserol i'w graffu bryd hynny yn dilyn cwblhau gwaith ymchwil manwl ac ystyried data a oedd i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Penderfynwyd, yn dilyn ymgynghori gyda'r Cadeirydd, y byddai rhaglennu'r eitem hon yn ystod 2025/26 yn sicrhau bod craffu yn digwydd yn amserol ac yn gallu ychwanegu gwerth. Ychwanegwyd bod hyn yn golygu bod yr eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth' yn llithro o gyfarfod 20 Mawrth 2025 ac i'w raglennu i'w graffu yn ystod 2025/26.

Mewn ymateb i sylwadau yng nghyswllt effaith gwrthod ceisiadau cynllunio am dai fforddiadwy ar niferoedd dysgwyr yn ysgolion Gwynedd yn y dyfodol, nododd yr Ymgynghorydd Craffu bod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi adnabod yr angen i graffu'r Strategaeth Addysg. Ychwanegodd bod Strategaeth ddrafft yn cael ei ddatblygu a bod niferoedd dysgwyr yn fater oedd yn cael sylw wrth ddatblygu'r Strategaeth.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2024/25.**

## 10. CYFARFOD HERIO PERFFORMIAD AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Eglurwyd nad yw'r Aelodau a oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad yr Adran Amgylchedd yn Aelodau o'r Pwyllgor bellach. Nodwyd yr angen i enwebu aelodau i gynrychioli'r Pwyllgor yn y cyfarfod Herio Perfformiad nesaf a gynhelir am 9:30yb ar Ddydd Mercher, 26 Mawrth 2025 dros Microsoft Teams. Pwysleisiwyd y disgwylir i'r Aelodau adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw faterion Herio Perfformiad sydd yn berthnasol i waith y Pwyllgor hwn.

Adroddwyd mai'r cyfarfod hwn byddai'r cyfarfod Herio Perfformiad olaf y byddai cynrychiolwyr o'r Pwyllgor yn mynychu, cyn i drefniadau Herio Perfformiad yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgorau Craffu ddod yn weithredol yn 2025/26.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorwyr Beca Roberts a Berwyn Parry Jones i gynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfod Herio Perfformiad yr Adran Amgylchedd ar 26 Mawrth 2025.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 13:00yp

___________________________________

**CADEIRYDD**